Polisi Iaith Gymraeg ar Ddyfarnu Grantiau

Cyhoeddwyd yn unol â gofynion Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015

Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg

This document is also available in English

wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

www.wrecsam.gov.uk | www.wrexham.gov.uk

Cynnwys

Cyflwyniad 3

Trosolwg o'r Broses Rhoi Grantiau 5

Oes angen i mi ystyried hyn yn ystod y broses rhoi grantiau? 6

Beth ddylwn i ei gynnwys yn y telerau ac amodau? 7

Beth ddylwn i ei gynnwys yn y canllawiau ar gyfer ymgeiswyr? 8

Beth ddylwn i ei gynnwys yn fy ffurflen gais? 10

Fframwaith / Pwysiad Enghreifftiol 11

Atodiad 1: Rhoi Grantiau gan Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam 13

Cyflwyniad

Mae'r polisi yma wedi cael ei ddatblygu er mwyn rhoi cymorth i swyddogion i gydymffurfio â gofynion Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 – wrth gyhoeddi grantiau ar ran Cyngor Wrecsam.

Mae Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor sicrhau:

- Rhaid i unrhyw ddogfennau yr ydych yn eu cyhoeddi sy'n ymwneud â cheisiadau am grant gael eu cyhoeddi yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin fersiwn Gymraeg o'r dogfennau hynny yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohonynt (Safon 71)

- Pan fyddwch yn gwahodd ceisiadau am grant, rhaid ichi ddatgan yn y gwahoddiad y caniateir i geisiadau gael eu cyflwyno yn Gymraeg ac na fydd unrhyw gais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg (Safon 72)

- Rhaid ichi beidio â thrin ceisiadau am grant a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol na cheisiadau a gyflwynir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, mewn perthynas â'r dyddiad cau ar gyfer cael ceisiadau, ac mewn perthynas ag amseriad rhoi gwybod i ymgeiswyr am benderfyniadau) (Safon 72A)

- Os byddwch yn cael cais am grant yn Gymraeg, a bod angen cyfweld ag ymgeisydd fel rhan o'ch asesiad o'r cais rhaid ichi -

    (a) cynnig darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg er mwyn i'r ymgeisydd allu defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweliad, a

    (b) os yw'r ymgeisydd yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweliad, darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd at y diben hwnnw (os nad ydych yn cynnal y cyfweliad yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu) (Safon 74)

- Pan fyddwch yn rhoi gwybod i ymgeisydd beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â chais am grant, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os cyflwynwyd y cais yn Gymraeg. (Safon 75)

- Rhaid ichi lunio a chyhoeddi polisi ar ddyfarnu grantiau (neu, pan fo'n briodol, ddiwygio polisi sydd eisoes yn bodoli) sy'n ei gwneud yn ofynnol ichi ystyried y materion a ganlyn pan fyddwch yn gwneud penderfyniadau ynghylch dyfarnu grant -

    (a) pa effeithiau, os o gwbl (a pha un a yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol), y byddai dyfarnu grant yn eu cael ar -

        (i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a

        (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

(b) sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau) fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar -

(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a

(ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

(c) sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau) fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar -

(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a

(ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

(ch) a oes angen ichi ofyn i'r ymgeisydd am grant am unrhyw wybodaeth ychwanegol er mwyn eich cynorthwyo i asesu effaith dyfarnu grant ar -

(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a

(ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. (Safon 94)

Nod y polisi yma yw cynorthwyo swyddogion i sicrhau bod yr ystyriaethau uchod yn elfen integredig o'r broses grantiau yn Wrecsam, yn ogystal â sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau (gan gynnwys y Cyngor Llawn / y Bwrdd Gweithredol / ac Uwch Swyddogion trwy benderfyniadau dirprwyedig) yn ymwybodol o'u dyletswyddau wrth ddod i benderfyniadau. Efallai y bydd angen hefyd ystyried llenwi Asesiad Effaith wrth sefydlu grantiau newydd i sicrhau bod y sefydliad yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg 88-90 – cyfeiriwch at y canllawiau Asesu Effaith am ragor o wybodaeth.

Bydd cadw at y rhestr wirio a ddarperir (atodiad 1) yn dangos eich bod wedi cydnabod yr angen i ystyried y Gymraeg ac wedi ymateb iddo. Felly, rhaid i broses rhoi grantiau lwyddiannus yn Wrecsam:

- cyhoeddi'r holl ddeunyddiau yn Gymraeg
- parchu dewis iaith unigolion trwy gydol y broses ymgeisio am grant
- nodi unrhyw effeithiau ar yr Iaith Gymraeg (cadarnhaol, negyddol neu'r ddau)
- nodi'r ffyrdd o hyrwyddo'r Gymraeg, gan gynnwys defnyddio'r Gymraeg
- lleihau unrhyw effeithiau andwyol ar y Gymraeg
- dangos sylw dyledus i'r effeithiau amrywiol a restrir yn y Safonau
- gweithredu amodau'r grant dim ond lle bo angen

Trosolwg o'r Broses Rhoi Grantiau

Mae'r siart llif yn ganllaw gweledol i helpu a chefnogi cydymffurfiad.

1. Arian yn cael ei ddyrannu trwy gytundeb y bwrdd gweithredol neu gyllid allanol
2. Cychwyn ar waith ymchwil gan Swyddogion ac ysgrifennu'r Adroddiad
3. Cytunir i Delerau ac Amodau'r grant gan gynnwys cyfeiriad at ystyriaethau'r Gymraeg
4. Cytunir ar y ffurflen gais sy'n cynnwys y cwestiynau cymeradwy am y Gymraeg
5. Cytunir ar ganllawiau i gynnwys gwybodaeth am gwestiynau ynglŷn â'r Gymraeg a sut bydd y Cyngor yn asesu'r rhain (ei fframwaith asesu)
6. Cyhoeddir gwybodaeth am y grantiau, yn Gymraeg ar yr un pryd â'r Saesneg, trwy sianeli cyfathrebu'r Cyngor
7. Cais yn cael ei dderbyn
8. Asesir y ffurflen gais yn erbyn fframwaith asesu cyhoeddedig **
9. Rhowch sylw i ystyriaethau ynglŷn â'r Gymraeg yn ystod y broses yma
10. Trafodwch ffyrdd mae modd newid y cais unigol i gael effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg
11. Ystyriwch sut mae modd newid y cais i beidio â chael effeithiau andwyol ar y Gymraeg, neu i leihau'r effeithiau hynny
12. Ystyriwch a ddylid gofyn i'r ymgeisydd am unrhyw wybodaeth ychwanegol er mwyn cynorthwyo i asesu a fydd dyfarnu'r grant yn cael effeithiau ar y Gymraeg
13. Cysylltwch â'r ymgeisydd, yn yr iaith mae wedi'i ddewis, i ofyn am wybodaeth bellach i lywio ei benderfyniad, neu i drafod unrhyw amodau grant sy'n ymwneud â'r Gymraeg
14. Pan fydd yr ymgeisydd yn llwyddiannus, mae swyddogion y Cyngor yn rheoli rhoi'r arian grant a'r broses fonitro, gan sicrhau bod unrhyw gyfathrebu yn ôl dewis iaith yr ymgeisydd

** Pan nad yw swyddog Cymraeg ar gael i asesu cais Cymraeg dylai'r adran anfon ymlaen at cymraeg@wrexham.gov.uk i sicrhau bod fersiwn Saesneg safonol yn cael ei darparu ar gyfer y broses asesu.

Oes angen i mi ystyried hyn yn ystod y broses rhoi grantiau?

Bydd y polisi yma'n berthnasol os yw'r Cyngor yn dyfarnu grantiau ar ran corff arall (Llywodraeth Cymru neu unrhyw gorff arall sy'n dod o fewn cwmpas Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) a bod telerau ac amodau penodol y grant yn cynnwys ystyriaethau sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

Bydd y polisi yma'n berthnasol os yw'r Cyngor yn dyfarnu grantiau y mae wedi'u hariannu.

Ni fydd y polisi yma'n berthnasol os yw'r Cyngor yn dyfarnu grantiau ar ran sefydliadau sydd ddim yn dod o fewn cwmpas Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a does dim telerau nac amodau penodol mewn perthynas â'r Gymraeg wedi'u nodi yn y grant. Rhaid cynnwys ymwadiad yn unol â hynny yn y ddogfennaeth grant.

Lle dydyn ni ddim yn gosod y polisi a does dim modd i ni newid ei gyfeiriad na'r telerau ac amodau ar gyfer y cronfeydd allanol hynny, mae'n rhaid cadw at yr holl Safonau Cymraeg perthnasol eraill – megis cyhoeddi fersiynau Cymraeg o'n canllawiau a'n dogfennau ymgynghori, ffurflenni cais, deunydd cyhoeddusrwydd ac ati.

Os ydych chi'n ansicr a yw'r polisi yma'n berthnasol i broses rhoi grantiau yr ydych yn ei rheoli, cysylltwch â cymraeg@wrexham.gov.uk i gael cyngor pellach.

Beth ddylwn i ei gynnwys yn y telerau ac amodau?

Rydyn ni'n awgrymu y dylid cynnwys y canlynol yn yr holl delerau ac amodau y mae Cyngor Wrecsam yn eu cyhoeddi.

Mae'r grant yma'n cael ei ddyfarnu'n unol â gofynion ein Polisi ar Ddyfarnu Grantiau, a gyhoeddwyd i sicrhau cydymffurfiad â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015, o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Er mwyn bodloni'r gofynion a'r amodau a thelerau yma rhaid i chi gydymffurfio â'r isod:

- << mewnosodwch amodau grant penodol mewn perthynas â'r Gymraeg >>

  neu

- << rhestrwch y camau y cytunwyd arnyn nhw i sicrhau effeithiau cadarnhaol mae'r ymgeisydd wedi'u nodi, neu i leihau effeithiau negyddol (bydd y rhain wedi'u trafod yn ystod y cam gwneud penderfyniadau) >>

Efallai y byddai'n briodol mewn rhai achosion gosod amod ar grant i sicrhau effeithiau mwy cadarnhaol ar y Gymraeg. Mae modd i'r rhain fod mor syml â mynnu bod ymgeiswyr yn arddangos arwyddion dwyieithog neu fod gweithgareddau'n cael eu darparu yn Gymraeg.

Os oes angen cyngor pellach arnoch mae croeso i chi gysylltu â cymraeg@wrexham.gov.uk

Beth ddylwn i ei gynnwys yn y canllawiau ar gyfer ymgeiswyr?

Rydyn ni'n awgrymu fod y canlynol wedi'i fewnosod ym mhob canllaw i ymgeiswyr -

Mae Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 yn gosod gofyniad statudol ar y Cyngor i sicrhau bod yr holl grantiau a ddyfarnir ganddo yn ystyried a oes ffyrdd y gellid diwygio'r fenter i gynnwys effeithiau mwy cadarnhaol ar y Gymraeg neu pe bai modd cynnwys gweithredoedd i leihau effeithiau negyddol neu eu dileu yn gyfan gwbl.

Wrth gydymffurfio â'r gofyniad statudol yma, gofynnwn i chi, yr ymgeisydd, roi gwybod i ni trwy'r ffurflen gais sut mae modd i'ch menter effeithio ar y meysydd canlynol -

- cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg e.e. staff, trigolion ac ymwelwyr
- effaith gadarnhaol neu negyddol ar nifer y siaradwyr Cymraeg e.e. Addysg gyfrwng Gymraeg, cyfleoedd i astudio, cysylltiadau â cysylltiadau â Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru
- cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg e.e. statws; defnydd o wasanaethau Cymraeg; defnyddio'r Gymraeg mewn bywyd beunyddiol, mewn gwaith ac yn y gymuned. Mynd ati'n weithredol i annog a hyrwyddo'r defnydd o'n gwasanaethau Cymraeg i weld cynnydd yn y galw dros amser
- peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

Bydd y garfan yn asesu'ch atebion, yn gofyn cwestiynau pellach lle bo angen neu efallai'n gosod amod grant a fyddai'n gofyn ichi gwblhau gweithred benodol i sicrhau effeithiau mwy cadarnhaol ar y Gymraeg.

Beth mae 'effaith' yn ei olygu?

Effaith Negyddol neu Niweidiol

Dyma le nodir y gallai menter (neu ryw agwedd arni) gael effaith negyddol ar y Gymraeg trwy leihau cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith, lleihau nifer neu ganran y siaradwyr Cymraeg, gan drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg neu beidio â'i hyrwyddo. Gall effaith negyddol fod yn hollol anfwriadol, a gall ddod i'r amlwg wrth gyflawni gwaith ymchwil neu ymgynghori neu drwy gael cyngor gan swyddogion polisi priodol.

Gall effaith negyddol ddigwydd pan fydd menter yn cael ei dileu neu ei dirwyn i ben. Oherwydd hyn dylid ystyried y materion yma'n ystod y broses benderfynu ynghylch cais.

Effaith Gadarnhaol

Dyma le nodir y gallai menter (neu ryw agwedd arni) gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg trwy gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith, hyrwyddo'r Gymraeg, cynyddu niferoedd neu ganran y siaradwyr Cymraeg neu drin y Gymraeg yn fwy ffafriol na'r Saesneg.

Mae effeithiau cadarnhaol yn cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei rwymedigaethau o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Dim effaith/Effaith ddibwys

Dyma le nodir efallai na fydd menter (neu ryw agwedd arni) yn cael unrhyw effaith ar y Gymraeg.

Beth ddylwn i ei gynnwys yn fy ffurflen gais?

Rhaid ychwanegu'r canlynol, yn gwestiwn gorfodol, at bob ffurflen gais, er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â'i Safonau'r Gymraeg trwy ofyn i'r ymgeisydd roi rhai ystyriaethau i ni cyn ein trafodaethau.

Rhowch wybod i ni:

- Sut byddai'r cynnig yn effeithio ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'u Cymraeg a'i hybu (cadarnhaol neu negyddol), ac a fyddai'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn unrhyw ffordd?
- Sut mae moddd cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu leihau effeithiau negyddol?

Fframwaith / Pwysiad Enghreifftiol

Cynghorir bod yr holl fframweithiau asesu yn cael eu diweddaru i gynnwys adran sy'n ystyried yr effeithiau ar y Gymraeg. Mae dull wedi'i awgrymu isod.

Cwestiwn	Disgrifiad Cryno
Ydy'r ymgeisydd wedi nodi unrhyw effeithiau cadarnhaol ar ddefnyddio neu hyrwyddo'r Gymraeg?	
Ydy'r ymgeisydd wedi nodi sut mae modd cynyddu'r effeithiau cadarnhaol?	
A oes effeithiau cadarnhaol, neu gamau a allai gynyddu'r effeithiau cadarnhaol, heb eu cofnodi ar y ffurflen gais y mae'r panel yn dymuno eu nodi?	
Ydy'r ymgeisydd wedi nodi unrhyw ffyrdd i leihau'r effeithiau negyddol ar y Gymraeg?	
Oes unrhyw gamau a allai leihau effeithiau negyddol na chofnodwyd ar y ffurflen gais y mae'r panel yn dymuno eu nodi?	
Ydy'r ymgeisydd wedi nodi unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio neu hyrwyddo'r Gymraeg?	

Cwestiwn	Disgrifiad Cryno
Os oes unrhyw effeithiau negyddol ar hyrwyddo neu ddefnyddio'r Gymraeg, sut fydd y rhain yn cael eu lliniaru?	
Oes effeithiau negyddol sydd heb eu cofnodi yn y ffurflen gais y mae'r panel yn dymuno eu hystyried?	
Ydyn ni angen rhagor o wybodaeth gan yr ymgeisydd er mwyn i ni asesu'r effeithiau ar y Gymraeg?	
Cofnodwch unrhyw ymateb gan yr ymgeisydd yma at ddibenion archwilio.	
Oes angen i ni osod amod ar y grant a fydd yn sicrhau effeithiau mwy cadarnhaol ar y Gymraeg neu un a fydd yn lleihau'r effeithiau negyddol? Os oes unrhyw rai wedi'u cofnodi yma, rhaid eu cofnodi hefyd yn nhelerau ac amodau'r grant a rhaid sicrhau bod yr ymgeisydd yn gwybod amdanyn nhw.	

Rhaid i swyddogion ystyried pa bwysoli / sgorio i'w roi i'r uchod mewn achosion lle mae'r broses rhoi grantiau'n defnyddio dull sgorio i asesu a ddylid dyfarnu grant ai peidio.

Mae rhagor o fanylion ar gael gan finance@wrexham.gov.uk

Atodiad 1: Rhoi Grantiau gan Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Os ydych chi'n rheoli proses rhoi grantiau ar ran Cyngor Wrecsam cwblhewch y rhestr wirio isod i sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â gofynion Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015.

Bydd sicrhau eich bod yn cydymffurfio yn lleihau'r posibilrwydd o unrhyw gŵyn, apeliadau neu ymchwiliadau gan y rheolydd a'r amrywiol gostau sy'n gysylltiedig â hynny. Am ragor o wybodaeth gweler ein Polisi ar Ddyfarnu Grantiau.

Y gofynion Rheoliadau Safonau'r Gymraeg	Ticiwch (✓)
Mae'r holl wybodaeth am y grant ar gael yn Gymraeg a bydd yn cael ei gyhoeddi ar yr un pryd â'r fersiwn Saesneg, gan gynnwys unrhyw ddogfennau canllaw, fframweithiau asesu a thelerau ac amodau.	
Mae'r ffurflenni i'r wasg, gwahoddiad a chais yn cynnwys y cynnig rhagweithiol isod: Caniateir cyflwyno ffurflen gais yn Gymraeg ac ni fydd unrhyw gais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg Fydd ffurflen gais sy'n cael ei chyflwyno yn Gymraeg ddim yn cael ei thrin yn llai ffafriol na ffurflen gais sy'n cael ei chyflwyno yn Saesneg.	
Mae'r frawddeg ganlynol wedi'i chynnwys yn y ffurflen gais Saesneg (lle mae'r fersiwn Gymraeg ar wahân). Mae'r ddogfen yma ar gael yn Gymraeg This document is available in Welsh	
Lle mae cyfeiriad e-bost neu rif ffôn yn cael ei ddefnyddio i ofyn i bobl gysylltu, mae'r frawddeg ganlynol wedi'i chynnwys yn y poster, e-bost neu hysbysiad cyhoeddus. Mae croeso i chi gyfathrebu â ni yn y Gymraeg You are welcome to communicate with us in Welsh	

Y gofynion Rheoliadau Safonau'r Gymraeg	Ticiwch (✓)
Mae'r ffurflen gais yn cynnwys y cwestiwn gorfodol canlynol i ganiatáu i'r ymgeisydd ystyried effaith y fenter ar y Gymraeg. Rhowch wybod i ni: ▪ Sut byddai'r grant yn effeithio ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'u Cymraeg a'i hybu (cadarnhaol neu negyddol), ac a fyddai'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn unrhyw ffordd ▪ Sut byddai modd estyn effeithiau cadarnhaol, neu leihau effeithiau negyddol Please let us know: ▪ How you feel the grant could impact opportunities for people to use and promote the Welsh Language (Positive or Negative) and if in any way it treats the Welsh Language less favourably than the English Language ▪ How positive impacts could be increased, or negative impacts be decreased	
Rydych chi wedi ystyried y canlynol yn ystod y broses asesu: ▪ Sut rydych chi'n teimlo y gallai'r grant effeithio ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg (cadarnhaol neu negyddol) ac os yw'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn unrhyw ffordd ▪ Sut mae modd cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu leihau effeithiau negyddol Cynghorir chi i ddefnyddio'r fframwaith asesu cyhoeddedig yn ystod eich trafodaethau sydd i'w weld yn y Polisi ar Ddyfarnu Grantiau i ddarparu trywydd archwilio o'ch ystyriaethau a'ch gweithredoedd.	
Rydych chi wedi ystyried gweithredu amod grant i sicrhau effeithiau mwy cadarnhaol ar y Gymraeg.	
Rydych chi'n parchu dewis iaith yr ymgeisydd yn ystod y broses.	

Y gofynion Rheoliadau Safonau'r Gymraeg	Ticiwch (✓)
Pan fyddwch chi wedi trefnu cyfarfod i ofyn cwestiynau pellach mewn perthynas â'r cais, rydych wedi cynnwys y cynnig rhagweithiol isod. (Mae'r rhain yn cynnwys cyfarfodydd hybrid a rhithwir) Croeso i chi ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod dim ond i chi roi gwybod i ni erbyn xx/xx/xx. You are welcome to use Welsh at the meeting, just let us know by xx/xx/xx should you wish to do so.	
Mae Gwasanaethau Cyfieithu ar y Pryd i'r Saesneg wedi eu trefnu mewn ymateb i drigolyn yn rhoi gwybod i ni ei fod yn dymuno siarad Cymraeg yn y cyfarfod * Anfonwch e-bost at cymraeg@wrexham.gov.uk i drefnu'r gwasanaeth yma	

Sylwch fod isgontractio'r grant drwy drydydd parti ddim yn rhyddhau'r Cyngor o'i gyfrifoldebau statudol i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg uchod. O'r herwydd, rhaid i reolwyr contract sicrhau bod y gofynion a restrir uchod, ac unrhyw rai eraill yn dibynnu ar natur y prosiect, yn cael eu cynnwys yn y contract.

* Does dim angen gwasanaeth cyfieithu wyneb yn wyneb / ar y pryd lle na chafwyd ymateb i'r cynnig. Mae modd i chi hefyd drefnu cyfarfod uniaith Gymraeg gyda swyddogion o'ch adran sy'n siarad Cymraeg